

Cyfathrebu yn y GIG yng Nghymru

Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o adroddiad cryno y Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned **Un peth syml.**

Ebrill 2019

Tudalen 1

Cyflwyniad



Adroddiad ydy hwn am **gyfathrebu** yn y GIG.

Cyfathrebu ydy'r ffordd rydyn ni'n rhoi gwybodaeth i bobl. Mae'n meddwl siarad ac ysgrifennu. Adroddiad ydy hwn am pa mor dda mae'r GIG yn **cyfathrebu** gyda phobl.



Cafodd yr adroddiad yma ei ysgrifennu gan **Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru**. Fe wnaethon ni ysgrifennu'r adroddiad yma ar gyfer y **7 Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghymru**.



Pobl yng Nghymru sydd yn defnyddio'r GIG sydd yn eistedd ar **Gynghorau Iechyd Cymuned**. Maen nhw'n helpu pobl i gael dweud eu dweud ar sut mae gwasanaethau iechyd yn cael eu cynllunio a'u darparu.



Mae Cynghorau Iechyd Cymuned wedi gweld bod **cyfathrebu** gwael yn aml yn rhan o'r problemau y mae pobl yn eu cael gyda'r GIG.



Felly fe wnaethon ni ofyn i bobl beth oedd eu profiadau gyda **chyfathrebu** GIG. Yn yr adroddiad yma rydyn ni'n siarad am beth wnaethon ni ei ddysgu a beth sydd yn digwydd nesaf.

Am yr adroddiad yma



Roedden ni eisiau dysgu rhagor am **gyfathrebu** yn y GIG. A dysgu rhagor am sut y mae'r GIG yn gallu gwella **cyfathrebu**.



Mae **cyfathrebu** gwael:



- Yn ei gwneud hi'n fwy tebygol na fydd pobl yn deall gwybodaeth bwysig am eu iechyd.



- Yn gallu gwneud i bobl deimlo'n flin ac yn ddryslyd.



- Yn gallu gwneud i bobl deimlo'n llai hyderus gyda'r gofal maen nhw'n ei gael.



- Yn gwastraffu amser ac arian GIG.

Fe wnaethon ni ofyn i bobl ddweud wrthyn ni am:



- Eu profiadau am **gyfathrebu** da gan y GIG.



- Eu profiadau am **gyfathrebu** gwael gan y GIG.



- Sut maen nhw'n meddwl y gallai'r GIG wneud eu **cyfathrebu** yn well.



Roedden ni eisiau clywed oddi wrth cymaint o bobl â phosibl. Ac roedden ni eisiau clywed oddi wrth bobl sydd ag anghenion **cyfathrebu**.



Fe wnaethon ni siarad gyda phobl mewn llawer o wahanol ffyrdd yn cynnwys:



- Cyfryngau cymdeithasol



- Ap ffonau deallus



- Negeseuon testun

- Rhadbost



- Peiriant ateb ffôn

- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb.



Fe wnaethon ni gael dros 1,300 o sylwadau ac awgrymiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Beth wnaethon ni ei ddysgu



Roedd llawer o bobl eisiau dweud wrthyn ni am eu profiadau. Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn dangos bod pobl yn meddwl bod y ffordd mae'r GIG yn **cyfathrebu** yn bwysig iawn.



Cyfathrebu da

Roedd pobl yn dweud bod **cyfathrebu** da:



- yn helpu i wneud amser anodd yn fwy hawdd i ddelio gydag ef



- yn eu helpu nhw i ymddiried yn eu gofal a'u triniaeth



- yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel



- yn helpu pobl i deimlo eu bod yn cael cymryd rhan a'u bod mewn rheolaeth o'u iechyd a'u gofal eu hunain.



Cyfathrebu gwael

Roedd pobl yn dweud bod **cyfathrebu** gwael neu ddim **cyfathrebu** o gwbl:



- yn gwneud iddyn nhw deimlo'n flin ac yn ofnus



- yn gwneud iddyn nhw deimlo nad oedd ganddyn nhw lais yn eu gofal. Roedden nhw'n teimlo nad oedd ganddyn nhw ddim rheolaeth



- yn ei gwneud hi'n fwy anodd iddyn nhw siarad am bethau roedden nhw'n poeni amdany'n nhw.



Roedd llawer o bobl yn ei chael hi'n anodd i gael yr wybodaeth roedden nhw ei hangen i gael gwasanaethau GIG. Neu i edrych ar ôl eu hunain.



Weithiau mae hyn yn digwydd oherwydd nad oedd yna unrhyw wybodaeth wedi cael ei ysgrifennu, Neu oherwydd bod yr wybodaeth yn hen, ddim yn glir neu yn ddryslyd.



Roedd pob yn dweud bod yr iaith roedd y GIG yn ei defnyddio yn ddryslyd ac yn anodd i'w deall.



Roedd llawer o bobl yn flin oherwydd and oedd ffyrdd hawdd o **gyfathrebu** ddim bob amser yn cael eu defnyddio. Er enghraifft neges testun ac e-bost.




Ond roedd pobl hefyd yn dweud nad oedden nhw'n gallu siarad gyda rhywun ar y ffôn pan roedden nhw angen weithiau pan oedd negeseuon testun ac e-bost yn cael eu defnyddio.



Mae llawer o bobl yn flin oherwydd nad ydy rhannau gwahanol o'r GIG yn rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd. Roedd pobl yn teimlo bod hyn yn beth hawdd i'w wneud nawr oherwydd technoleg.



Roedd rhai pobl yn hapus oherwydd eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg pan roedden nhw eisiau gwneud hynny. Ond roedden nhw'n dweud bod hyn yn wahanol iawn mewn gwahanol leoedd, Roedden nhw hefyd yn dweud bod angen gwella cyfieithu gwybodaeth i'r Gymraeg.



Doedd pobl ddim yn gallu cael gwybodaeth yn hawdd mewn Iaith Arwyddion Prydeinig a Braille.



Mae pobl sydd ddim yn gallu gweld neu glywed yn dda a'r rhai sydd yn siarad ieithoedd eraill yn ei chael yn fwy anodd i **gyfathrebu** gyda'r GIG. Weithiau mae rhaid iddyn nhw ofyn i ffrindiau a theulu eu helpu.

Gwneud pethau'n well



Mae angen i'r GIG ddod yn well ar ddefnyddio gwahanol ffyrdd o **gyfathrebu** i ateb anghenion pobl.



Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu cynllun i wneud iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Enw'r cynllun ydy '**Cymru Iachach**'.

Mae 10 prif ffordd o wella iechyd a gofal cymdeithasol yn y cynllun. Dyma rai ohonyn nhw:



- Rhoi'r wybodaeth maen nhw angen i bobl.



- Newid iechyd a gofal i ateb anghenion pobl.



- Gweithio'n well gyda'n gilydd.

Rhoi'r wybodaeth maen nhw angen i bobl



Mae **Cymru Iachach** yn dweud y dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol:



- Rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl i ofalu am eu iechyd a'u llesiant.



- Helpu pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth eu hunain.



- Rhoi gwybodaeth glir a hawdd y mae pobl yn gallu ei deall.



- Cynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau i wella iechyd a gofal.

Newid iechyd a gofal i ateb anghenion pobl



Mae **Cymru Iachach** yn dweud y dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol:



- Newid gwasanaethau iechyd a gofal i ateb anghenion a dewis pobl. Er enghraifft, rhoi gwybodaeth i bobl yn yr iaith o'u dewis nhw.



- Cynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth.



- Cefnogi pobl i ofalu am eu iechyd a'u llesiant eu hunain.



Gweithio'n well gyda'n gilydd

Mae **Cymru Iachach** yn dweud y dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol:



- Gwneud gwasanaethau a gwybodaeth yn syml ac yn glir i ateb anghenion pobl.



- Gwneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio yn well gyda'i gilydd.



- Rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a darparwyr.

Beth nesaf?



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau rhaglen i helpu i wneud y GIG yn well.



Rhaid i'r bobl sydd yn rhan o'r rhaglen wneud yn siŵr bod y GIG yn gwneud newidiadau i wella **cyfathrebu**. A rhaid i hyn gael ei wneud yn fwy cyflym ac yn well nag o'r blaen.



Mae technoleg yn rhan bwysig o wneud **cyfathrebu** yn well.



Rhaid i'r GIG yng Nghymru:



- Gwella sgiliau **cyfathrebu**’r bobl sydd yn gweithio i’r GIG.



- Defnyddio'r technoleg gywir i wneud **cyfathrebu** yn hawdd ac yn gyflym.



- Cael gwell ffyrdd o **gyfathrebu** gyda phobl sydd yn siarad gwahanol ieithoedd neu sydd angen cefnogaeth ychwanegol.



- Rhoi gwybodaeth dda mewn llawer o wahanol ffyrdd i ateb gwahanol anghenion.

Diolch yn fawr



Rydyn ni eisiau diolch i bawb sydd wedi dweud wrthyn ni am eu profiadau ac sydd wedi rhannu eu syniadau.



Rydyn ni'n gobeithio bod beth rydych chi wedi ei ddweud wrthyn ni yn helpu'r GIG i weld beth maen nhw'n ei wneud yn dda ac i werthfawrogi hynny. Ac yn eu helpu nhw i weld beth maen nhw'n gallu ei wneud yn well a beth sydd angen ei newid i wella **cyfathrebu**.

Gwybodaeth gyswllt

Cyfeiriad:



Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
33/35 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HB



Gwefan: www.communityhealthcouncils.org.uk



Ffôn: 029 2023 5558



E-bost: enquiries@waleschc.org.uk



Twitter: [@CHC_Wales](https://twitter.com/CHC_Wales)



Cafodd y daflen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.